

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd
Cynulliad: Barn Plant a Phobl Ifanc

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd
Cynulliad: Barn Plant a Phobl Ifanc**

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cylch gwaith y Pwyllgor:

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (y Pwyllgor) ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar wariant, gweinyddiaeth a materion polisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Roedd y pwnc wedi'i gynnwys yn rhan o gylich gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes o hyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Ar yr un pryd, cymerwyd y cyfle i ychwanegu'n ffurfiol y gair 'addysg' i deitl y Pwyllgor i adlewyrchu natur ei waith yn well.

Aelodau'r Pwyllgor:

Aelod Pwyllgor	Plaid	Etholaeth neu Ranbarth
Ann Jones (Cadeirydd)	Llafur Cymru	Dyffryn Clwyd
Angela Burns	Y Ceidwadwyr Cymreig	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Keith Davies	Llafur Cymru	Llanelli
Suzy Davies	Y Ceidwadwyr Cymreig	Gorllewin De Cymru
John Griffiths	Llafur Cymru	Dwyrain Casnewydd
Lynne Neagle	Llafur Cymru	Torfaen
David Rees	Llafur Cymru	Aberafan
Aled Roberts	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gogledd Cymru
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Simon Thomas	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru

Aelodau blaenorol y Pwyllgor:

Aelod Pwyllgor	Plaid	Etholaeth neu Ranbarth
Christine Chapman AC (cyn Gadeirydd)	Llafur Cymru	Cwm Cynon
Jocelyn Davies	Plaid Cymru	Dwyrain De Cymru
Rebecca Evans	Llafur Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Bethan Jenkins	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Julie Morgan	Llafur Cymru	Gogledd Caerdydd
Jenny Rathbone	Llafur Cymru	Caerdydd Canolog

Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei brif Adroddiad Etifeddiaeth ar 24 Mawrth 2016. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi man cychwyn defnyddiol i bwyllgor olynol y Pwyllgor, i ddangos yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, sut yr ydym wedi ei wneud a'r gwersi yr ydym wedi'u dysgu.

Prif nod y Pwyllgor dros bum mlynedd y Pedwerydd Cynulliad fu craffu ar bolisiâu a deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru, ac i fonitro eu gweithrediad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru yn cael cynnig mynediad o ansawdd uchel i addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel rhan o'i waith etifeddiaeth, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau allweddol y Cynulliad yn y pumed Cynulliad. Yn dilyn yr etholiad ar 5 Mai, bydd yna lawer o heriau y bydd ein Pwyllgor olynol yn dymuno mynd i'r afael â hwy. Wrth geisio helpu i gynnig ffocws ar gyfer unrhyw waith yn y dyfodol, roedd y Pwyllgor yn dymuno gwybod pa faterion oedd yn bwysig i blant a phobl ifanc.

Barn plant a phobl ifanc

Wrth edrych ymlaen at y Pumed Cynulliad, siarodd y Pwyllgor yn uniongyrchol â phobl ifanc yn ystod Digwyddiad Ieuenctid y Cynulliad ar 15 Gorffennaf 2015. Cynhyrchodd y Pwyllgor hefyd 'gardiau cwestiwn' wedi'u hanelu yn benodol at blant a phobl ifanc yn gofyn:

- Beth yw'r mater(ion) pwysigaf sy'n effeithio arnoch chi heddiw?
- Beth fydddech chi'n hoffi ei newid?



Derbyniodd y Pwyllgor 1,380 o ymatebion, ar ystod o faterion a chan grŵp oedran eang. Mae'r prif feysydd sy'n peri pryder wedi'u hamlygu isod:

- | | |
|-----------------------|--|
| – Addysg | – Cyflogaeth a Sgiliau |
| – Trafnidiaeth | – Gwleidyddiaeth |
| – Llywodraeth leol | – Yr amgylchedd |
| – Iechyd | – Hamdden |
| – Ffioedd Myfyrwyr | – Cyflogau |
| – Y Gymraeg | – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc |
| – Hamdden a Chwaraeon | – Rhyngrwyd |
| – Tai | – Diogelwch |
| – Cymuned | – Ffermio |

Adroddiad Ar-lein

Roedd llawer o'r farn a fynegwyd yn y meysydd hyn yn berthnasol iawn i waith y Cynulliad yn y Pumed Cynulliad, nid yn unig i'r Pwyllgor hwn, ond ar draws pob portffolio. Mae'r Pwyllgor felly wedi cynhyrchu adroddiad ar-lein mwy manwl yn amlygu'r prif negeseuon.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r holl blant a phobl ifanc a dreuliodd amser yn ymateb.

Darllen yr adroddiad: <https://sway.com/XkmrD3YgyeRnJCVu>